Hydref 2018

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru

## Adroddiad 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2018

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r Fenter Twyll Genedlaethol ddwyflynyddol yng Nghymru yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2018. Rwyf wedi paratoi'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Steven O' Donoghue a David Rees oedd aelodau staff Swyddfa Archwilio Cymru a wnaeth fy nghynorthwyo i baratoi'r adroddiad hwn.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2017

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


Rhagair 6

Crynodeb 8

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol ddiweddaraf wedi cyfrannu'n sylweddol at fynd i'r afael â thwyll yn erbyn cyrff cyhoeddus Cymru 10

Mae ymarfer dwyflynyddol diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru wedi canfod ac atal gwerth £5.4 miliwn o dwyll a gordaliadau 10

Mae gwaith paru'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi helpu i nodi achosion o dwyll a gordaliadau mewn amrywiaeth eang o feysydd 13

Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi bod yn llwyddiannus o ran nodi twyll a gordaliadau budd-dal tai 16

Mae gwaith paru'r Fenter Twyll Genedlaethol rhwng data gostyngiadau person sengl y dreth gyngor a'r gofrestr etholiadol wedi sicrhau arbedion gwerth £1.5 miliwn i bwrs y wlad 22

Mae gwaith paru data newydd gan y Fenter Twyll Genedlaethol rhwng hawlwyr sy'n derbyn Gostyngiad yn y Dreth Gyngor a setiau data eraill y Fenter wedi nodi 54 o achosion pan roedd gostyngiad yn cael ei or-hawlio 23

Mae gwaith paru data taliadau credydwyr y Fenter Twyll Genedlaethol wedi helpu i nodi 61 o achosion o ordaliadau i gredydwyr 25

Mae Adolygiad o waith paru'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi arwain at ddiddymu 1,690 o fathodynnau glas a 28,584 o gardiau teithio rhatach 26

Mae gwaith paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol o daliadau awdurdodau lleol ar gyfer gofal preswyl wedi nodi nifer fach o chosion â gwerth uchel pan hawliwyd costau gofal preswyl gan awdurdodau lleol ar ôl marwolaeth preswylydd 27

Roedd gwaith paru data newydd gan y Fenter Twyll Genedlaethol y bwriadwyd iddo atal twyll rhestrau aros am dai yn llwyddiannus, ac arweiniodd at dynnu 52 o ymgeiswyr a oedd yn anghymwys i dderbyn llety oddi ar restrau aros am dai 28

Roedd mwyafrif y cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru a gymerodd ran yn y Fenter Twyll Genedlaethol yn rhagweithiol o ran adolygu'r parau data, ond nid oedd nifer fach o gyfranogwyr yn adolygu'r parau yn brydlon nac yn effeithiol 29

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, gyda chymorth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn parhau i ddatblygu'r Fenter Twyll Genedlaethol i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn effeithiol 30

Atodiad 1 – Sut y mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn gweithio 33

Atodiad 2 – Trefniadau Llywodraethu'r Fenter Twyll Genedlaethol 35

# Rhagair



Bu 10 mlynedd ers i'r argyfwng ariannol byd-eang roi ysgytwad i strwythurau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol, ac mae effaith yr argyfwng hwnnw yn dal i gael ei theimlo heddiw. Bu'n rhaid i gyrff cyhoeddus ledled y DU ymdopi â thoriadau digynsail i'w cyllid ac mae'n rhaid iddynt fodloni galw am wasanaethu cyhoeddus sy'n cynyddu'n barhaus yn ogystal â dioddef toriadau i'w cyllidebau o flwyddyn i flwyddyn. Yn y cyd-destun hwn, mae'n galonogol gweld sut y mae cyrff cyhoeddus Cymru yn mabwysiadu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diogelu rhag effeithiau toriadau i gyllid, ac mae'r ddarpariaeth o wasanaethau yn cael ei gwella mewn rhai achosion.

Er bod angen i gyrff cyhoeddus Cymru barhau i archwilio ffyrdd newydd o weithio, mae'n hanfodol eu bod yn parhau i sicrhau y darperir gwasanaethau a budd-daliadau i'r rheini sy'n gymwys i'w derbyn yn unig. Yn anffodus, ceir pobl sy'n ceisio twyllo er mwyn cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus a budd-daliadau nad oes ganddynt hawl iddynt. Ym mis Mehefin 2013, amcangyfrifodd yr Awdurdod Twyll Cenedlaethol bod y golled flynyddol i dwyll yn sector cyhoeddus y DU yn dod i gyfanswm o £662 miliwn (ac eithrio twyll trethi). Mae pob punt a gollir i dwyll yn bunt sy'n cael ei gwastraffu ac yn lleihau'r cyllid sydd ar gael i'r rheini sydd angen gwasanaethau cyhoeddus fwyaf. Mae'n hollbwysig felly bod cyrff cyhoeddus yn defnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael iddynt i atal a chanfod twyll.

Rwy'n falch iawn o allu cefnogi cyrff cyhoeddus Cymru wrth iddynt ymladd twyll trwy ddarparu'r Fenter Twyll Genedlaethol ddwyflynyddol iddynt. Dull paru data hynod effeithiol yw'r Fenter Twyll Genedlaethol, sy'n galluogi sefydliadau i nodi ac ymchwilio i anghysondebau data a allai fod o ganlyniad i dwyll. Ers ei sefydlu ym 1996, defnyddiwyd y Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod gwerth dros £35 miliwn o dwyll a gordaliadau yn erbyn sector cyhoeddus Cymru.

Mae canfyddiadau'r ymarfer diweddaraf a nodir yn yr adroddiad hwn yn dangos y canfuwyd gwerth £5.4 miliwn o dwyll a gordaliadau (o'i gymharu â £4.4 miliwn yn yr ymarfer blaenorol). Mae hyn yn cynrychioli llwyddiant parhaus y fenter, a hoffwn ddiolch i'r aelodau staff hynny o bob rhan o sector cyhoeddus Cymru am eu hymroddiad wrth ymchwilio i'r parau data. Ni fyddai'r llwyddiant hwn wedi bod yn bosibl heb eu hymdrechion nhw.

Rwy'n parhau i weithredu strategaeth o ehangu cyfranogiad a defnydd o'r Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru, ac anogaf bob sefydliad sector cyhoeddus i gyflwyno cynigion ar gyfer parau data posibl eraill a allai helpu i atal a chanfod twyll.

**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Crynodeb

1 Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gwario biliynau lawer o bunnoedd o arian trethdalwyr yn darparu budd-daliadau a gwasanaethau i ddiwallu anghenion cymdeithasol y Cymry. Gan amlaf, mae gan y bobl sy'n derbyn y budd-daliadau a'r gwasanaethau hyn hawl iddynt a gallant wneud gwahaniaeth sylweddol i wella ansawdd bywyd.

2 Pan fydd twyllwyr yn hawlio oddi wrth gyrff cyhoeddus am wasanaethau a budd-daliadau nad oes ganddynt hawl iddynt, mae'n golygu y gallai fod yn rhaid i unigolion sydd wir eu hangen aros am gyfnod hwy am wasanaethau, triniaeth neu gymorth. Nid yw twyll yn drosedd heb ddioddefwyr.

3 I gefnogi cyrff cyhoeddus Cymru yn eu brwydr yn erbyn twyll, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru ar sail ddwyflynyddol. Mae'r Fenter yn paru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus ganfod hawliadau a thrafodiadau sydd o bosibl yn dwyllodrus neu'n wallus.

4 Yr ymarfer Menter Twyll Genedlaethol presennol fu un o'r rhai mwyaf llwyddiannus hyd yma, ac mae eisoes wedi arwain at ganfod gwerth £5.4 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru, a £301 miliwn ledled y DU. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys nifer o astudiaethau achos sy'n amlygu'r gwaith rhagorol y mae cyrff sy'n cymryd rhan yn ei wneud i atal twyll mewn gwasanaethau cyhoeddus.

5 Ni fyddai wedi bod yn bosibl cyflawni'r canlyniadau hyn heb waith caled llawer o aelodau staff yn y cyrff sy'n cymryd rhan sydd wedi dangos ymrwymiad i adolygu ac ymchwilio i'r parau data.

6 Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru i roi'r cyllid angenrheidiol i Swyddfa Archwilio Cymru i alluogi'r fenter i gael ei darparu i gyrff sy'n cymryd rhan yn ddi-dâl.

7 Yn rhan o'r ymarfer nesaf, bydd archwilwyr yr Archwilydd Cyffredinol yn parhau i weithio gyda'r cyrff sy'n cymryd rhan i'w helpu i fanteisio i'r eithaf ar y budd posibl y gellir ei sicrhau drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol.

8 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymrwymo i gynorthwyo cyrff cyhoeddus yn eu hymdrechion i atal a chanfod twyll trwy ddefnyddio technegau paru data mewn meysydd lle ceir risg o dwyll nad ydynt yn rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol ar hyn o bryd. Yn ystod 2017-18, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Swyddfa'r Cabinet a CThEM i ddatblygu ymarferion paru data prawf er mwyn helpu i atal a chanfod twyll mewn darpariaethau addysg a thai. Mae canlyniadau cynnar yr ymarferion prawf hyn yn gadarnhaol iawn a bydd y canlyniadau yn cael eu cyhoeddi ar ôl i'r treialon gael eu gwerthuso'n llawn.

# Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol ddiweddaraf wedi cyfrannu'n sylweddol at fynd i'r afael â thwyll yn erbyn cyrff cyhoeddus Cymru

## Mae ymarfer dwyflynyddol diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru wedi canfod ac atal gwerth £5.4 miliwn o dwyll a gordaliadau

1 Pan fydd twyllwyr yn hawlio gwasanaethau a budd-daliadau nad oes ganddynt hawl iddynt, mae'n golygu y gallai fod yn rhaid i unigolion sydd wir eu hangen aros am gyfnod hwy am wasanaethau, triniaeth neu gymorth. Nid yw twyll yn drosedd heb ddioddefwyr.

2 I gefnogi cyrff cyhoeddus Cymru yn eu brwydr yn erbyn twyll, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru ar sail ddwyflynyddol. Mae'r Fenter yn paru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus ganfod hawliadau a thrafodiadau sydd o bosibl yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae Arddangosyn 1 yn nodi rhai o'r parau data sy'n cael eu gwirio drwy'r Fenter ynghyd â'r mathau o broblemau y gellir eu canfod.

### Arddangosyn 1: enghreifftiau o fathau o broblemau y mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi'u datgelu

| Setiau data a barwyd | Problemau a ddatgelwyd |
|---|---|
| Budd-dal tai yn erbyn hawliadau budd-dal tai | Unigolion sy'n hawlio budd-dal tai mewn mwy nag un eiddo. |
| Budd-dal tai, rhent tai a chofnodion cyflogres yn erbyn data mewnfudo[1] | Unigolion sydd mewn cyflogaeth neu'n derbyn budd-daliadau cyhoeddus nad oes ganddynt hawl i fyw neu weithio yn y DU. |
| Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor yn erbyn y gofrestr etholiadol | Unigolion sy'n hawlio yn dwyllodrus mai nhw yw'r unig feddiannydd sy'n oedolyn mewn eiddo er mwyn cael gostyngiad o 25 y cant i'w treth gyngor. |
| Taliadau i gartref gofal preswyl yn erbyn cofnodion unigolion sydd wedi marw. | Taliadau parhaus i gartref gofal preswyl ar ôl i'r preswylydd farw. |
| Taliadau credydwyr yn erbyn taliadau credydwyr | Mae cyrff cyhoeddus wedi talu ddwywaith am yr un nwyddau neu wasanaeth ar ôl derbyn anfonebau dyblyg. |
| Cofnodion deiliaid bathodynnau glas yn erbyn cofnodion unigolion sydd wedi marw | Defnydd amhriodol o fathodynnau glas, pan fo deiliad trwydded wedi marw, ond nad yw'r awdurdod lleol wedi cael ei hysbysu. |

3 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cydweithredu â Swyddfa'r Cabinet, Audit Scotland, a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon ar y Fenter Twyll Genedlaethol i baru data ar draws 1,300 o sefydliadau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar y cyd i ddatblygu modiwlau paru data newydd, rhannu trefniadau prosesu data a rhannu adnoddau fel staff a chanllawiau technegol. Ceir rhagor o wybodaeth am y Fenter Twyll Genedlaethol a sut y mae'n gweithio yn Atodiad 1.

4 Ers ei sefydlu ym 1996, mae ymarferion y Fenter wedi arwain at ganfod gwerth dros £35 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru, ac £1.69 biliwn ledled y DU. Mae gordaliadau a nodwyd yn cynnwys symiau arian sydd eisoes wedi eu talu, a blaenamcanestyniadau, pan fo'n rhesymol tybio y byddai twyll, gordaliadau a gwallau wedi parhau heb eu canfod heb waith paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol.

1 Mae hyn yn cynnwys data am fisâu a wrthodwyd ac sydd wedi dod i ben, fisâu nad ydynt yn rhoi hawl i weithio, a cheisiadau aflwyddiannus am loches.

5 Mae'r ymarfer diweddaraf yn cynnwys y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2018. Cyfrannodd deugain a saith o gyrff cyhoeddus Cymru at ymarfer diweddaraf y Fenter. Roedd y rhain yn cynnwys y cyfranogwyr gorfodol canlynol:

- Awdurdodau lleol
- Awdurdodau heddlu
- Awdurdodau tân
- Cyrff GIG


6 Cymerodd Llywodraeth Cymru, rhai Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ran yn y Fenter ar sail wirfoddol. Mae manylion cyflogres y mwyafrif llethol o staff sector cyhoeddus a'u harchwilwyr allanol wedi eu cynnwys yn y Fenter ar gyfer paru data i ganfod ac atal twyll.

7 Darparwyd mwyafrif y parau data ar gyfer ymarfer diweddaraf hwn y Fenter Twyll Genedlaethol i gyrff cyhoeddus ym mis Ionawr 2017. Ers hynny, adolygwyd y rhan fwyaf o'r parau gan y cyrff sy'n cymryd rhan, a chynhaliwyd ymchwiliadau pan fo hynny'n briodol.

8 Rhwng mis Gorffennaf 2014 a mis Mawrth 2016, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am ymchwilio i dwyll posibl o ran budd-daliadau tai o awdurdodau lleol i Wasanaethau Twyll a Gwallau'r Adran Gwaith a Phensiynau. O ganlyniad, ar gyfer ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef, Gwasanaethau Twyll a Gwallau'r Adran Gwaith a Phensiynau oedd yn gyfrifol am ymchwilio i barau data budd-daliadau tai y Fenter Twyll Genedlaethol yr ystyriwyd eu bod yn achosion posibl o dwyll.

9 Llwyddodd yr ymarfer diweddaraf i ganfod ac atal gwerth dros £5.4 miliwn o dwyll a gordaliadau yn gysylltiedig â chyrff cyhoeddus yng Nghymru, o'i gymharu â £4.4 miliwn yn yr ymarfer blaenorol. Mae Arddangosyn 2 yn dangos sut y mae gwerth yr arbedion a nodwyd yng Nghymru drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi newid ers cychwyn yr ymarfer ym 1996.

Arddangosyn 2: arbedion a nodwyd gan y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru mewn £ miliynau




Ffynhonnell: cronfa ddata'r Fenter Twyll Genedlaethol

## Mae gwaith paru'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi helpu i nodi achosion o dwyll a gordaliadau mewn amrywiaeth eang o feysydd


10 Pan ddechreuodd y Fenter Twyll Genedlaethol ym 1996, ei phrif swyddogaeth oedd paru data i ganfod twyll a gordaliadau mewn meysydd yr ystyriwyd eu bod yn uchel eu risg, ac yn benodol:

- Grantiau myfyrwyr
- Budd-daliadau tai
- Cyflogres sector cyhoeddus
- Pensiynau sector cyhoeddus

11 Dros lawer o flynyddoedd, mae gwaith paru data yn y meysydd hyn wedi arwain at ganfod twyll a gordaliadau uchel eu gwerth, gan gynnwys llawer o achosion o dwyll hirsefydlog. Yn benodol, rhoddwyd terfyn ar daliadau pensiwn hirsefydlog a wnaed yn enw pensiynwyr sydd wedi marw. Canfu ymarfer diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol fod y gwaith paru data traddodiadol hwn yn dal i fod yn adnodd effeithiol i ganfod twyll a gordaliadau, a'i fod yn parhau i ganfod achosion o dwyll. Mae gwerth achosion unigol o dwyll yn y meysydd hyn yn tueddu i fod yn is gan y rhoddwyd y terfyn ar fwyafrif yr achosion o dwyll hirsefydlog.

12 Ers ymarfer cyntaf y Fenter, cyflwynwyd llawer o fodiwlau newydd sydd wedi cynnig y cyfle i'r sefydliadau sy'n cymryd rhan ganfod twyll a gordaliadau mewn meysydd eraill, fel taliadau credydwyr a hawliadau Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor. Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor (£1.47 miliwn) a phensiynau (£0.97 miliwn) oedd y meysydd â'r gwerth uchaf o ran twyll a gordaliadau a ganfuwyd ac a gafodd eu hatal yn rhan o ymarfer diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol.

Arddangosyn 3: gordaliadau ac arbedion cysylltiedig yn y dyfodol a nodwyd trwy Fenter Twyll Genedlaethol 2016-17 o'i gymharu â Menter 2014-15, 2012-13 a Menter 2010-11




Ffynhonnell: cronfa ddata'r Fenter Twyll Genedlaethol

13 Fel y dangosir yn Arddangosyn 3, cynyddodd gwerth twyll a gordaliadau a nodwyd mewn 'meysydd eraill' yn sylweddol yn yr ymarfer diweddaraf. Mae hyn o ganlyniad i gyflwyno setiau data newydd mewn ymarferion diweddar fel trwyddedau parcio 'bathodyn glas' a hawliadau am ostyngiad i'r dreth gyngor i raddau helaeth. Pan gyflwynir gwaith paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol mewn meysydd newydd, mae'n bosibl y gall gael effaith ariannol sylweddol o ran mynd i'r afael â thwyll hirsefydlog.

14 Pan ddechreuodd y Fenter Twyll Genedlaethol baru pensiynau sector cyhoeddus a delir yn erbyn cofnodion unigolion marw, canfu nifer sylweddol o bensiynau yn dal i gael eu talu ar ôl marwolaeth pensiynwr. Arweiniodd diddymiad y taliadau hyn at arbedion sylweddol i bwrs y wlad. Dros amser, mae'r Fenter wedi helpu i ddileu'r math hwn o dwyll i raddau helaeth ac mae'n gymharol anarferol erbyn hyn i'r Fenter ganfod pensiynau sy'n cael eu talu ar ôl marwolaeth pensiynwr.

15 Dechreuodd y Fenter baru Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor yn erbyn y gofrestr etholiadol am y tro cyntaf yn 2008-09. Ers hynny, canfuwyd ac ataliwyd twyll a gordaliadau Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor gwerth £9.19 miliwn. Canfuwyd twyll a gordaliadau gwerth £1.47 miliwn yn yr ymarfer diweddaraf. Roedd hyn yn cymharu â £2.14 miliwn yn yr ymarfer blaenorol. Rydym yn rhagweld y bydd y duedd hon yn parhau mewn yn ymarferion y dyfodol wrth i achosion o dwyll hirsefydlog yn y maes hwn gael eu hatal.

## Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi bod yn llwyddiannus o ran nodi twyll a gordaliadau budd-dal tai

16 Mae'r Fenter yn paru cofnodion budd-daliadau tai yn erbyn nifer o setiau data i ganfod hawliadau twyllodrus neu wallus. Mae canfod ac adennill arian o dwyll a gordaliadau budd-dal tai wedi bod yn un o feysydd mwyaf llwyddiannus y Fenter yn draddodiadol.

17 Mae ymchwilio i dwyll budd-dal tai yn aml yn helpu i ganfod gordaliadau eraill. Gall pobl sy'n derbyn budd-dal tai hefyd fod yn derbyn budd-daliadau a thaliadau eraill, fel budd-dal y dreth gyngor, cymhorthdal incwm, neu gredyd cynhwysol. Caiff yr achosion mwyaf cyffredin o dwyll a gwallau budd-daliadau sy'n cael eu canfod drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol eu hachosi gan ymgeiswyr yn methu â datgan pensiynau galwedigaethol neu enillion cyflogaeth, a myfyrwyr yn hawlio budd-dal tai pan nad oes ganddynt hawl i wneud hynny.

18 Rhwng mis Gorffennaf 2014 a mis Mawrth 2016, trosglwyddwyd cyfrifoldeb am ymchwilio i dwyll budd-dal tai o awdurdodau lleol Cymru i Wasanaethau Twyll a Gwallau'r Adran Gwaith a Phensiynau. Gwnaed y trosglwyddiad yn raddol.

19 Canfu ymarfer diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol ordaliadau budd-dal tai gwerth £0.64 miliwn. Mae hyn yn cymharu ag £1.6 miliwn yn 2010-11, £1.37 miliwn yn 2012-13 ac £1.14 miliwn yn 2014-15. Nid yw'r gostyngiad i'r canlyniadau a gyflawnwyd drwy'r Fenter o ran budd-daliadau yn unigryw i Gymru, ac mae tuedd debyg i'w gweld ledled y DU. Gallai hyn fod oherwydd y rhesymau canlynol:

- mae trosglwyddo cyfrifoldeb am ymchwilio i dwyll budd-daliadau o gynghorau i un Gwasanaeth Ymchwilio Twyll yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi golygu bod ymchwilwyr awdurdod lleol yn canolbwyntio ar feysydd eraill erbyn hyn.
- mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn defnyddio gwybodaeth cyflogres a phensiynau amser real nawr, er mwyn helpu i atal gordaliadau budd-dal rhag digwydd.
- mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ymchwilio i dwyll posibl sydd â gwerth sylweddol yn unig.
- ymdrechion gan gyrff cyhoeddus i wella systemau budd-daliadau tai yn barhaus. Mae cynghorau hefyd yn cymryd rhan yng nghynlluniau'r Adran Gwaith a Phensiynau fel y Fenter Budd-daliadau Cywir o fis Ebrill 2017, sydd â'r nod o ganfod a lleihau twyll a gwallau yn ymwneud â budd-daliadau tai.

20 Er bod canlyniadau arbedion budd-dal tai cyffredinol wedi gostwng, nododd yr ymarfer diweddaraf 169 o achosion o dwyll neu ordaliadau budd-dal. £3,781 oedd gwerth pob achos ar gyfartaledd. Mae hyn yn dangos bod y rheini sy'n cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol yn targedu parau budd-daliadau uchel eu gwerth ac uchel eu risg yn effeithiol.

## Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi helpu i ganfod pobl sy'n hawlio budd-dal tai nad ydynt wedi datgelu incwm cyflogaeth neu bensiwn yn llawn

21 Gan fod budd-dal tai yn destun prawf modd, mae'n ofynnol i hawlwyr ddatgelu i'r awdurdod lleol unrhyw incwm cyflog a/neu bensiwn y maent yn ei dderbyn a hysbysu'r awdurdod lleol os bydd eu hincwm yn newid. Mae hefyd yn ofynnol i hawlwyr ddatgelu cyflog a/neu bensiwn unrhyw bobl nad ydynt yn ddibynyddion y maent yn byw gyda nhw. Mae'n debygol y bydd methiant i ddatgelu incwm yn arwain at ordalu budd-dal tai a gall fod yn achos o dwyll.

### Astudiaeth Achos 1

Adolygodd **Cyngor Sir Penfro** barau data'r Fenter Twyll Genedlaethol rhwng cyflogres a budd-dal tai. Canfu'r Cyngor mewn un achos bod cyflogai'r Cyngor a oedd yn derbyn budd-dal tai wedi methu â datgelu bod ei gyflog wedi codi. Derbyniwyd manylion cyflog gan yr adran Gyflogres a chanfuwyd o adolygiad pellach o'r hawliad bod yr unigolyn wedi derbyn budd-dal tai gwerth £2,760.00 nad oedd ganddo hawl iddo. Mae'r Cyngor yn adennill y budd-dal a or-hawliwyd.

### Astudiaeth Achos 2

Ymchwiliodd **Cyngor Gwynedd** i waith paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol rhwng budd-daliadau tai a chyflogres a nododd bod gan hawlydd budd-dal tai incwm cyflogaeth yn deillio o fwrdd iechyd lleol nas datgelwyd ar ei gais am fudd-dal tai. Gwnaeth y Cyngor waith dilynol ar y gwaith paru trwy geisio rhagor o wybodaeth gan yr hawlydd a CThEM. Canfu'r Cyngor fod yr hawlydd wedi gor-hawlio budd-dal tai gwerth £3,472.17. Cyfeiriodd y Cyngor yr achos at yr Adran Gwaith a Phensiynau hefyd, a arweiniodd at derfynu'r hawliad budd-dal tai.

### Astudiaeth Achos 3

Wrth adolygu gwaith paru'r Fenter Twyll Genedlaethol rhwng budd-dal tai ac incwm pensiwn galwedigaethol, canfu **Cyngor Caerdydd** fod hawlydd budd-daliadau yn derbyn pensiwn athrawes gan awdurdod lleol arall yng Nghymru ac nad oedd hi wedi datgan hyn wrth hawlio budd-dal tai. Ceisiodd a derbyniodd y Cyngor gadarnhad o'r incwm pensiwn gan CThEM trwy wybodaeth amser real a llwyddodd i ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddiweddaru'r hawliad a chyfrifo bod yr unigolyn wedi hawlio £3,180.25 yn anghywir. Cyfeiriwyd yr achos at yr Adran Gwaith a Phensiynau, ac yn dilyn ymchwiliad, derbyniodd yr hawlydd hefyd gosb weinyddol o £1,590.13.

## Astudiaeth Achos 4

Ymchwiliodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** i waith paru'r Fenter Twyll Genedlaethol a nododd bod hawlydd budd-dal tai yn derbyn pensiwn galwedigaethol, nas datganwyd yn rhan o'r cais am fudd-dal tai. Roedd yr unigolyn hefyd yn hawlio gostyngiad i'r Dreth Gyngor ar sail incwm isel. Roedd yr unigolyn yn oedrannus ac felly ceisiodd y Cyngor gael tystiolaeth gan ei ferch o ran maint y pensiwn yr oedd y pensiynwr yn ei dderbyn. Nid oedd y wybodaeth a dderbyniwyd gan y ferch yn cyd-fynd â'r wybodaeth a ddangoswyd gan waith paru'r Fenter. Ceisiodd y Cyngor gadarnhad annibynnol o'r taliadau pensiwn gan ddarparwr y pensiwn felly. Cadarnhaodd hyn bod y swm a nodwyd gan ferch yr unigolyn yn sylweddol is na'r swm gwirioneddol. Daeth y Cyngor i'r casgliad fod yr hawliad budd-dal tai wedi bod yn dwyllodrus o'r cychwyn, gan arwain at or-hawlio budd-dal tai gwerth £7,201 a Gostyngiad i'r Dreth Gyngor gwerth £1,810.

## Astudiaeth Achos 5

Adolygodd **Cyngor Sir Penfro** barau data'r Fenter Twyll Genedlaethol rhwng trwyddedau tacsi a budd-dal tai. Nodwyd mewn un achos a adolygwyd nifer o newidiadau nas datganwyd, gan gynnwys cynnydd i enillion, enillion hunangyflogedig fel gyrrwr tacsi a dibynnydd i'r halwyd yn dechrau gweithio. O ganlyniad, roedd yr hawlydd wedi derbyn budd-dal tai gwerth £2,972 nad oedd ganddo hawl iddo ac nid oedd yn gymwys i dderbyn unrhyw fudd-daliadau mwyach. Mae'r gordaliad yn cael ei ad-dalu i'r Cyngor.

## Defnyddiwyd y Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod hawlwyr budd-dal tai nad oedd ganddynt unrhyw hawl i weithio nac aros yn y DU

22 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru data'r hawlwyr budd-dal tai yn erbyn cofnodion mewnfudo a fisâu y Swyddfa Gartref. Nid yw unigolion nad oes ganddynt hawl neu nad ydynt wedi derbyn caniatâd i fyw neu weithio yn y DU yn gymwys i dderbyn budd-dal tai.

### Astudiaeth Achos 6

Adolygodd **Cyngor Caerdydd** barau data'r Fenter Twyll Genedlaethol rhwng budd-dal tai a statws mewnfudo. Mewn un achos, ar ôl ceisio rhagor o wybodaeth gan y Swyddfa Gartref, cadarnhaodd y Cyngor nad oedd gan yr hawlydd budd-dal tai unrhyw ganiatâd i aros yn y DU ac felly nid oedd ganddo unrhyw hawl i dderbyn budd-dal tai. Cyfrifodd y Cyngor bod yr hawlydd wedi derbyn gordaliad o £6,854 ac ataliodd yr hawliad. Enillodd yr unigolyn achos tribiwnlys mewnfudo yn ddiweddarach, a ail-gyflwynodd ei hawl i fudd-daliadau, a llwyddodd y Cyngor i adennill y gordaliad yn llawn o daliadau budd-dal a oedd i'w dod.

## Cynorthwyodd y Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod myfyrwyr a oedd yn hawlio budd-dal tai pan nad oedd ganddynt hawl i wneud hynny

23 Nid yw mwyafrif y myfyrwyr sy'n derbyn benthyciad myfyrwyr yn gymwys i hawlio budd-dal tai. Parodd ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol ddata benthyciadau myfyrwyr yn erbyn cofnodion budd-dal tai i ganfod taliadau budd-dal tai a oedd o bosibl yn dwyllodrus neu'n wallus. Yn dilyn adolygiad o'r data a barwyd, canfu awdurdodau lleol yng Nghymru nifer sylweddol o achosion lle'r oedd amheuon bod myfyrwyr wedi hawlio budd-dal tai pan nad oeddent yn gymwys i wneud hynny. Cyfeiriwyd llawr o'r achosion hyn at Wasanaeth Twyll a Gwallau'r Adran Gwaith a Phensiynau i'w hymchwilio.

### Astudiaeth Achos 7

Adolygodd **Cyngor Caerdydd** barau'r Fenter Twyll Genedlaethol rhwng Budd-dal Tai a Chyllid Myfyrwyr. Cadarnhaodd yr adolygiad hwn fod nifer o fyfyrwyr sy'n derbyn cyllid myfyrwyr wedi methu â datgan eu bod yn derbyn cyllid myfyrwyr wrth hawlio budd-dal tai. Cysylltodd y Cyngor â'r unigolion dan sylw i gadarnhau manylion parau'r Fenter Twyll Genedlaethol ac arweiniodd hyn at ailasesu 26 o achosion o hawl i fudd-dal tai a chyfrifo maint y gordaliadau. Mae'r Cyngor yn adennill yr hyn a or-hawliwyd. Cyfeiriwyd un achos at yr Adran Gwaith a Phensiynau i'w ymchwilio a chanfuwyd gordaliad o £7,974 yn yr achos hwnnw. Derbyniodd yr hawlydd hefyd gosb weinyddol o £2,000.

## Mae gwaith paru'r Fenter Twyll Genedlaethol ar bensiynau wedi llwyddo i roi terfyn ar nifer fawr o achosion hirsefydlog o dwyll a gordaliadau pensiwn ond mae nifer fach o achosion newydd yn dal i gael eu canfod

24 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru pensiynau galwedigaethol a delir yn erbyn cofnodion unigolion marw i ganfod achosion pan roedd pensiynau yn cael ei gael eu talu ar ôl i bensiynwr farw.

25 Pan gyflwynwyd y pâr data hwn gan Fenter i ddechrau yn rhan o Fenter Twyll Genedlaethol 2004-05, daeth o hyd i lawer o achosion pan roedd pensiynau yn dal i gael eu talu sawl blwyddyn ar ôl i'r pensiynwr farw. O ganlyniad, roedd gordaliadau pensiwn sylweddol wedi cael eu gwneud. Ers hynny, trwy ymchwilio i waith paru'r Fenter, mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi llwyddo i roi terfyn ar lawer o'r achosion hirsefydlog hyn. Er bod y Fenter yn parhau i ganfod achosion newydd pan fo pensiynau wedi parhau ar ôl dyddiad y farwolaeth, mae'r gordaliad cyfartalog yn lawer iawn llai. Mae hyn yn dangos effeithiolrwydd y Fenter o ran mewn gostwng lefelau twyll a gwallau.

### Astudiaeth Achos 8

Adolygodd **Dinas a Sir Abertawe** barau rhwng pobl sy'n derbyn pensiynau galwedigaethol a delir gan y Cyngor a chofnodion unigolion marw yr Adran Gwaith a Phensiynau. Cynhaliwyd archwiliadau i sicrhau bod y partïon a barwyd yr un rhai. Pan roedd hyn yn wir, cynhaliwyd archwiliadau pellach i gadarnhau bod y pensiwn yn dal i gael ei dalu a pha un a oedd cofnodion pensiynau wedi eu diweddaru i nodi bod y pensiynwr wedi marw. Pan roedd pensiynau yn dal i gael eu talu ar ôl dyddiad y farwolaeth, ataliwyd y taliadau, a gwaned ymdrechion i ddod o hyd i'r berthynas agosaf. Anfonwyd hefyd ffurflenni cymhwysedd i benderfynu a yw'r cymhwysedd yn parhau. O ganlyniad i hyn, nodwyd 26 o achosion o dalu pensiynau yn anghywir, ac mae'r Cyngor yn ceisio adennill y gordaliadau. Mewn un achos, cyfanswm y gordaliad oedd £10,058. Mae 11 o bensiynau eraill wedi eu hatal ac yn destun ymchwiliadau parhaus i ddod o hyd i'r berthynas agosaf.

## Mae gwaith paru'r Fenter Twyll Genedlaethol rhwng data gostyngiadau person sengl y dreth gyngor a'r gofrestr etholiadol wedi sicrhau arbedion gwerth £1.5 miliwn i bwrs y wlad

26 Mae'r rheini sy'n talu'r dreth gyngor yn gymwys ar gyfer gostyngiad i'w bil os mai nhw yw'r unig feddiannydd sy'n hŷn na 18 oed mewn aelwyd, neu os yw meddianwyr eraill yr aelwyd mewn categorïau sy'n eu heithrio, er enghraifft myfyrwyr. Mae hyn yn cynnig gostyngiad o 25% i'r bil treth gyngor llawn sy'n daladwy ar gyfer yr eiddo. Cyfeirir at y gostyngiad hwn yn gyffredin fel Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor.

27 Mewn nifer fawr o achosion, roedd hawlwyr Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor yn gymwys wrth wneud y cais, ond ni wnaethant ddatgan newidiadau a ganlynodd o ran eu hamgylchiadau personol. Mae ymdrech awdurdodau lleol i ganfod dyddiadau newidiadau i amgylchiadau wedi eu galluogi i adennill gostyngiadau anghymwys blynyddoedd blaenorol yn hytrach na dim ond atal y gostyngiad yn y dyfodol.

28 Mae awdurdodau lleol yn adennill y swm sydd a or-hawliwyd mewn 89% o achosion. Mae awdurdodau lleol wedi canfod bod rhai unigolion, a hawliodd y gostyngiad yn amhriodol, wedi hawlio budd-daliadau eraill yn amhriodol hefyd.

29 Er bod rhai awdurdodau lleol yng Nghymru wedi bod yn rhagweithiol iawn o ran adolygu ac, yn ôl yr angen, diddymu ceisiadau amhriodol am Ostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor, nid yw eraill wedi buddsoddi adnoddau digonol i roi sylw i'r parau. Mae hyn yn anffodus, oherwydd mae'r awdurdodau hynny sydd wedi mabwysiadu dull trwyadl wedi dod ag arbedion o £1.5 miliwn drwy ymchwilio i'r parau. Mae astudiaethau achos 9 a 10 yn cynnig dwy enghraifft o awdurdodau sydd wedi bod yn rhagweithiol iawn yn y maes hwn.

### Astudiaeth Achos 9

Cynhaliodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** adolygiad ac ymchwiliad o ran parau'r Fenter Twyll Genedlaethol yn dangos unigolion a oedd yn derbyn Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor, pan roedd y gofrestr etholiadol yn dangos bod mwy nag un unigolyn wedi ei gofrestru i bleidleisio yn yr eiddo dan sylw. O ganlyniad, nodwyd 435 o hawliadau lle nad oedd gan bobl hawl i ostyngiad neu nad oedd ganddynt hawl i ostyngiad mwyach. £245,175 oedd cyfanswm y gordaliadau a or-hawliwyd ac mae £89,931 ohono'n cael ei adennill. Mae diddymu'r hawliadau hyn hefyd wedi cynyddu'r refeniw treth gyngor sy'n cael ei chasglu'n barhaus.

### Astudiaeth Achos 10

Cynhaliodd **Cyngor Sir Penfro** adolygiad o waith paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol rhwng y rheini a oedd yn derbyn gostyngiadau treth gyngor pan ddyfarnwyd gostyngiad person sengl yn erbyn manylion a gedwir ar y gofrestr etholiadol pan fo mwy nag un person wedi ei gofrestru i bleidleisio. Croeswiriwyd manylion aelwydydd yn erbyn cofnodion mewnol, archwiliadau dilysu gydag awdurdodau lleol eraill a thrwy gysylltu â'r trethdalwr yn uniongyrchol. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, diddymwyd 247 o ostyngiadau person sengl a chodwyd ffi lawn y dreth gyngor. Mae'r Cyngor wrthi'n adennill £19,550 o dreth y cyngor a dandalwyd.

## Mae gwaith paru data newydd gan y Fenter Twyll Genedlaethol rhwng hawlwyr sy'n derbyn Gostyngiad yn y Dreth Gyngor a setiau data eraill y Fenter wedi nodi 54 o achosion pan roedd gostyngiad yn cael ei or-hawlio

30 Mae pob cyngor yng Nghymru yn gweithredu ei gynllun Gostyngiad Treth Gyngor ei hun. Mae'r cynllun hwn yn helpu pobl ag incwm isel a/neu sy'n derbyn budd-daliadau penodol i dalu eu bil treth gyngor. Disodlodd y cynllun Gostyngiad Treth Gyngor y cynllun budd-dal treth gyngor cenedlaethol, gan ddod i rym ar 1 Ebrill 2013.

31 Gan fod y Gostyngiad Treth Gyngor yn ostyngiad seiliedig ar incwm, pan fydd ymgeiswyr yn methu â datgan eu hincwm llawn, byddant yn derbyn gostyngiadau i'w Treth Gyngor nad oes ganddynt hawl iddynt. Parwyd Gostyngiad Treth Gyngor a setiau data eraill y Fenter Twyll Genedlaethol am y tro cyntaf yn ymarfer diweddaraf y Fenter. Bu'r gwaith paru data newydd yn llwyddiannus, gan ganfod 54 o achosion o or-hawlio Gostyngiad Treth Gyngor yng Nghymru. Canfuwyd mewn llawer o'r achosion hyn bod yr unigolyn hefyd yn gor-hawlio budd-daliadau eraill sy'n destun prawf modd.

**Astudiaeth Achos 11**

Ymchwiliodd **Cyngor Gwynedd** i waith paru'r Fenter Twyll Genedlaethol rhwng Cyflogres a Gostyngiad Treth Gyngor. Roedd y dystiolaeth yn y ffeil Budd-dal Tai/Gostyngiad Treth Gyngor yn dangos bod yr hawlydd wedi datgan ei fod yn byw gyda pherson nad oedd yn ddibynnydd a oedd yn gweithio'n rhan amser. Fodd bynnag, ar ôl adolygu gwaith paru'r Fenter a gwneud ymholiadau pellach, cadarnhaodd y Cyngor bod y person nad oedd yn ddibynnydd wedi newid swydd ym mis Hydref 2015 ac yn gweithio'n llawn amser. Nid oedd yr hawlydd wedi hysbysu'r Cyngor am y newid hwn. Cyfrifodd y Cyngor bod yr unigolyn wedi gor-hawlio Gostyngiad Treth Gyngor gwerth £434 a chanfu hefyd bod budd-dal tai gwerth £5,794 wedi cael ei hawlio'n anghyfreithlon. Derbyniodd yr hawlydd gosb weinyddol o £2,420. Mae'r Cyngor yn adennill y gordaliadau ar hyn o bryd trwy ddidyniadau o daliadau budd-dal.

**Astudiaeth Achos 12**

Ymchwiliodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** i waith paru'r Fenter Twyll Genedlaethol a oedd yn dangos bod hawlydd a oedd yn derbyn Gostyngiad Treth Gyngor llawn ar gyfer eiddo yn ardal y Cyngor hefyd yn derbyn budd-dal tai a Gostyngiad Treth Gyngor mewn cyfeiriad yn Lloegr. Cadarnhaodd ymholiadau a wnaed i'r Cyngor arall yn Lloegr bod yr hawlydd yn byw mewn eiddo cymdeithas dai yn ardal y Cyngor hwnnw ac yn derbyn budd-dal tai a Gostyngiad Treth Gyngor ganddo. Nid oedd y Cyngor yn Lloegr wedi cael ei hysbysu bod yr hawlydd yn berchen ar eiddo yng Nghymru ac felly nad oedd ganddo hawl i dderbyn budd-dal tai na Gostyngiad Treth Gyngor yn Lloegr. Cadarnhaodd archwiliadau pellach a wnaed o'r Gofrestrfa Tir bod yr hawlydd dal i fod yn berchen ar yr eiddo yng Nghymru. Diddymwyd yr hawliad Gostyngiad Treth Gyngor yng Nghymru yn ôl i fis Mai 2010 a chyfrifwyd gordaliad o £6,399. Mae camau adennill yn parhau.

## Astudiaeth Achos 13

Ymchwiliodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** i achos y Fenter Twyll Genedlaethol a ddangosodd fod unigolyn a oedd wedi dechrau hawlio Gostyngiad y Dreth Gyngor, Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor a budd-dal tai ym mis Ebrill 2016 yn byw gyda gweithiwr i'r Cyngor yn yr eiddo yr oedd yr hawliadau yn berthnasol iddo. Nid oedd yr hawliwr wedi rhoi gwybod i'r Cyngor ei fod yn byw gyda'r gweithiwr i'r Cyngor a oedd yn ennill incwm y dylai fod wedi'i ystyried at ddibenion asesu budd-daliadau. Cynhaliodd y Cyngor ymholiadau a chanfod nad oedd y gweithiwr yn preswylio yn y cyfeiriad mewn ardal Cyngor cyfagos fel y dywedodd wrth y Cyngor. Yn wir, roedd hi wedi bod yn byw gyda'r hawliwr budd-daliadau ers sawl blwyddyn. Cyfeiriodd y Cyngor yr achos at yr Adran Gwaith a Phensiynau fel achos posibl o dwyll. Pan gysylltodd yr Adran Gwaith a Phensiynau â'r hawliwr, cyfaddefodd iddo fod mewn perthynas â'r gweithiwr i'r Cyngor a'i fod yn byw gyda hi ers nifer o flynyddoedd, a'u bod wedi dyfeisio'r denantiaeth er mwyn hawlio budd-dal tai a Gostyngiad y Dreth Gyngor ar gam. Canslodd y Cyngor Ostyngiad y Dreth Gyngor, Gostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor a'r budd-dal tai ac mae'n adennill gwerth £5,309 o fudd-dal tai a hawliwyd yn ormodol, £1,212 o Ostyngiad y Dreth Gyngor a £1,084 o Ostyngiad Person Sengl y Dreth Gyngor. Cychwynnodd y Cyngor gamau disgyblu yn erbyn y gweithiwr ac mae ei chyflogaeth wedi'i therfynu erbyn hyn.

## Mae gwaith paru data taliadau credydwyr y Fenter Twyll Genedlaethol wedi helpu i nodi 61 o achosion o ordaliadau i gredydwyr

32 Nod y gwaith paru data taliadau credydwyr yw helpu cyrff cyhoeddus i ganfod problemau fel anfonebau dyblyg neu ardrethi TAW anghywir. Mae hefyd yn galluogi cyrff cyhoeddus i amlygu diffygion mewn systemau a allai eu gwneud yn agored i dwyll neu wallau.

33 Nododd ymarfer diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol 61 o achosion pan wnaed gordaliadau, ac mae'r taliadau hyn wedi cael eu hadennill neu wrthi'n cael eu hadennill mewn 60 o achosion.

## Astudiaeth Achos 14

Cynhaliodd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** adolygiad o waith paru taliadau i gredydwyr i ganfod ac ymchwilio i daliadau dyblyg posibl. Canfuwyd nifer o achosion o ddyblygu a oedd eisoes wedi eu hadennill trwy gredydau cyflenwyr neu ad-daliadau ond canfuwyd hefyd nifer o daliadau dyblyg nas adenillwyd drwy'r ymarfer hwn. Canfuwyd tri deg saith o daliadau dyblyg nas adenillwyd a oedd yn dod i gyfanswm o £60,534. Mae'r Cyngor wedi adennill neu wrthi'n adennill yr holl daliadau dyblyg a ganfuwyd ac mae'n parhau i adolygu ei systemau a'i weithdrefnau i atal gordaliadau yn y dyfodol.

## Mae Adolygiad o waith paru'r Fenter Twyll Genedlaethol wedi arwain at ddiddymu 1,690 o fathodynnau glas a 28,584 o gardiau teithio rhatach

34 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru bathodynnau glas a chardiau teithio rhatach yn erbyn cofnodion unigolion marw. Bwriad y gwaith paru yw canfod bathodynnau a chardiau sydd o bosibl yn dal mewn cylchrediad ar ôl marwolaeth y perchennog cofrestredig. Caiff cofnodion bathodynnau glas hefyd eu paru i ganfod achosion pan gyflwynwyd bathodynnau i ddeiliaid bathodyn glas gan fwy nag un awdurdod lleol.

35 Mae bathodynnau glas yn cynnig nifer o gonsesiynau parcio ac yn achubiaeth i bobl â phroblemau symud difrifol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod y bathodynnau'n cael eu dileu pan fydd y deiliad yn marw. Gall methu â gwneud hynny olygu bod bathodynnau yn cael eu defnyddio gan bobl nad oes ganddynt unrhyw hawl.

36 Mae'n drosedd arddangos bathodyn glas at ddibenion osgoi taliadau parcio neu i sicrhau lle parcio gwell pan nad y gyrrwr na'r cyd-deithiwr yw perchennog cyfreithlon y bathodyn. Nid yw hyn yn atal twyllwyr rhag targedu'r cynllun, a gall bathodynnau glas gael eu gwerthu am symiau sylweddol o arian. Mae'r twyll yn arwain at golled o ran refeniw parcio i'r awdurdod lleol a hefyd yn golygu na fydd lleoedd parcio ar gael i ddeiliaid bathodyn glas dilys.

37 Eleni, mae'r gwaith paru wedi arwain at ddiddymu 1,690 o fathodynnau glas ledled Cymru, o'i gymharu â 1,044 yn ymarfer blaenorol y Fenter. Ar ôl diddymu'r bathodynnau, mae'n bosibl i awdurdodau lleol wirio a yw'r bathodynnau a ddiddymwyd yn cael eu harddangos yn dwyllodrus.

## Astudiaeth Achos 15

Canfu **un awdurdod lleol** nifer o barau yn y Fenter Twyll Genedlaethol rhwng deiliaid bathodynnau glas a chofnodion unigolion marw. Ar ôl adolygu'r parau hyn, llwyddodd y Cyngor i gadarnhau mewn 281 o achosion bod deiliad y bathodyn glas wedi marw ond nad oedd y Cyngor wedi cael ei hysbysu. Diddymwyd y bathodynnau glas a diweddarwyd cofnodion y Cyngor.

38 Mae cynllun cardiau teithio rhatach Cymru yn rhoi hawl i bawb sy'n 60 oed a hŷn a phobl ag anableddau i deithio ar fysiau am ddim ledled Cymru. Pan fydd perchenogion cardiau teithio rhatach wedi marw neu wedi symud i ardal awdurdod lleol arall, nid yw'r awdurdod lleol yn cael ei hysbysu bob amser ac efallai y bydd y cerdyn yn parhau mewn cylchrediad. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i dwyllwyr osgoi costau teithio. Mewn ymarferion Menter Twyll Genedlaethol blaenorol, darparwyd parau data yn ymwneud â chardiau teithio rhatach i awdurdodau lleol yng Nghymru i'w hadolygu a'u hymchwilio. Nid oedd pob awdurdod wedi adolygu'r parau hyn yn effeithiol. Yn yr ymarfer diweddaraf, cytunodd Llywodraeth Cymru i adolygu'r parau data ar sail Cymru gyfan. Diddymwyd 28,584 o gardiau teithio rhatach o ganlyniad i waith a wnaed gan Lywodraeth Cymru. Mewn nifer o achosion, roedd cardiau teithio a ddiddymwyd wedi bod mewn defnydd sawl blwyddyn ar ôl i'r deiliad farw.

## Mae gwaith paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol o daliadau awdurdodau lleol ar gyfer gofal preswyl wedi nodi nifer fach o achosion â gwerth uchel pan hawliwyd costau gofal preswyl gan awdurdodau lleol ar ôl marwolaeth preswylydd

39 Yn ddibynnol ar amgylchiadau, gall awdurdodau lleol gyfrannu at gostau gofal preswylwyr cartrefi preswyl preifat. Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn paru taliadau awdurdod lleol am ofal preswyl yn erbyn cofnodion unigolion marw. Gall gordaliadau sylweddol iawn gronni os bydd taliadau yn parhau i gael eu gwneud ar ôl marwolaeth preswylydd.

**Astudiaeth Achos 16**

Archwiliodd **Llywodraeth Cymru** barau'r Fenter Twyll Genedlaethol rhwng deiliaid cardiau teithio rhatach a chofnodion unigolion marw ar sail Cymru gyfan. Pan roedd Llywodraeth Cymru yn gallu cadarnhau bod dwy ochr y pâr yn ymwneud â'r un person, diddymwyd y cardiau a oedd yn ymwneud ag unigolion marw. Sicrhaodd hyn na allai'r cardiau dan sylw gael eu defnyddio'n dwyllodrus gan drydydd partïon. Hefyd, gan fod Llywodraeth Cymru yn talu ffi flynyddol am bob cerdyn sydd mewn cylchrediad, roedd yn gallu sicrhau arbedion o £84,000 y flwyddyn o ran costau gweinyddol.

## Roedd gwaith paru data newydd gan y Fenter Twyll Genedlaethol y bwriadwyd iddo atal twyll rhestrau aros am dai yn llwyddiannus, ac arweiniodd at dynnu 52 o ymgeiswyr a oedd yn anghymwys i dderbyn llety oddi ar restrau aros am dai

40 Ceir prinder stoc tai cymdeithasol ar gael i ddarparu llety i'r rheini sydd angen tai. Mae'r galw am dai cymdeithasol yn cynyddu ac mae gan y rhan fwyaf o ddarparwyr tai cymdeithasol restrau aros hir. Mae'n hanfodol bod tai cymdeithasol yn cael eu darparu i'r rheini sydd â hawl i lety yn unig. Pan fydd unigolion yn gwneud cais am dai nad oes ganddynt hawl iddynt, neu os na fyddant yn hysbysu'r darparwr tai bod eu hamgylchiadau wedi newid, gall arwain at roi tenantiaethau i bobl nad ydynt yn gymwys i'w derbyn ac oedi o ran cartrefu'r rhain sydd â hawl.

**Astudiaeth Achos 17**

**Ymchwiliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** i waith paru'r Fenter Twyll Genedlaethol a oedd yn dangos bod y Cyngor yn dal i wneud taliadau i gartref gofal preswyl preifat yng nghyswllt preswylydd a fu farw. Ar ôl derbyn gwaith paru'r Fenter ym mis Ionawr 2017, cysylltodd y Cyngor â'r cartref gofal i wirio dyddiad y farwolaeth. Cadarnhaodd y cartref gofal y bu farw'r preswylydd ym mis Tachwedd 2016. Nid oedd y Cyngor wedi cael ei hysbysu am y farwolaeth gan y cartref gofal ac felly roedd y Cyngor wedi parhau i wneud taliadau gofal yng nghyswllt y preswylydd. O ganlyniad, roedd y cartref gofal wedi gor-hawlio £3,859 gan y Cyngor. Mae'r Cyngor eisoes wedi adennill y gordaliad llawn gan y cartref gofal.

**Astudiaeth Achos 18**

Cynhaliodd **Cyngor Dinas Casnewydd** adolygiad manwl o daliadau'r Cyngor i gartrefi preswyl preifat ar gyfer preswylwyr a leolwyd a chofnodion yr Adran Gwaith a Phensiynau ar unigolion marw. Galluogodd y broses baru i swyddogion y Cyngor ganfod bod ffioedd gofal o £68,194 wedi cael eu talu i gartref gofal yng nghyswllt preswylydd a fu farw. Canfuwyd mewn adolygiad manwl gan y Cyngor nad oedd y Bwrdd Iechyd Lleol na'r cartref gofal wedi hysbysu'r Cyngor bod y preswylydd wedi derbyn Cyllid Gofal Iechyd Parhaus ac wedi marw yn ddiweddarach. Yn dilyn y canfyddiad hwn, cynhaliodd y tîm Comisiynu a Chontractau adolygiad o weithdrefnau adrodd a llwyddodd y Cyngor i adennill y ffioedd yn llawn.

41 Yn ymarfer blaenorol y Fenter Twyll Genedlaethol, cynhaliwyd treial mewn nifer fach o awdurdodau lleol i baru data rhestrau aros am dai yn erbyn setiau data eraill y Fenter gan gynnwys tenantiaethau tai presennol, hawlwyr budd-dal tai, data mewnfudo ac unigolion marw. Diben y gwaith paru oedd canfod enghreifftiau pan wnaed ceisiadau twyllodrus, neu pan roedd amgylchiadau personol wedi newid, a oedd yn golygu nad oedd unigolion ar restrau aros yn gymwys i dderbyn tŷ mwyach.

42 Roedd yr ymarfer yn llwyddiannus a phenderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol ymestyn y gwaith paru hwn i holl awdurdodau lleol Cymru yn yr ymarfer diweddaraf. Arweiniodd hyn at dynnu 52 o ymgeiswyr nad oeddent yn gymwys i gael tŷ oddi ar restrau aros awdurdodau lleol Cymru.

## Roedd mwyafrif y cyrff sector cyhoeddus yng Nghymru a gymerodd ran yn y Fenter Twyll Genedlaethol yn rhagweithiol o ran adolygu'r parau data, ond nid oedd nifer fach o gyfranogwyr yn adolygu'r parau yn brydlon nac yn effeithiol

43 Mae archwilwyr wedi adolygu'r gwaith a wnaed gan awdurdodau i wneud y defnydd gorau o waith paru'r Fenter Twyll Genedlaethol ac wedi canfod bod gan fwyafrif y cyfranogwyr ddull effeithiol ar gyfer rheoli'r Fenter ac adolygu parau data. Fodd bynnag, ceir amrywiad sylweddol o hyd o ran lefel yr ymrwymiad sy'n cael ei dangos gan gyfranogwyr ac, mewn nifer fach o achosion, mae cyfranogwyr wedi methu ag adolygu parau'r Fenter yn effeithiol neu'n brydlon.

**Astudiaeth Achos 19**

Ymchwiliodd **Dinas a Sir Abertawe** i'r parau rhestrau aros a dderbyniodd. Ar ôl cadarnhau bod partïon y parau yr un fath, cynhaliwyd archwiliadau i gadarnhau bod y parti a barwyd yn dal i fod ar y rhestr aros am dŷ. Galluogodd data'r Fenter Twyll Genedlaethol i'r Cyngor wirio ei gofnodion a chadarnhau a oes angen diweddaru cofnodion y Cyngor neu a oedd hawliad dwbl/twyllodrus am dŷ wedi cael ei wneud. O ganlyniad i'r gwaith a wnaed, llwyddodd y Cyngor i dynnu 34 o geisiadau oddi ar ei restr aros am dai.

44 Bydd archwilwyr yr Archwilydd Cyffredinol yn gweithio'n agos gyda'r sefydliadau a gymerodd ran na wnaethant ddefnyddio'r Fenter Twyll Genedlaethol yn effeithiol i geisio gwella eu dealltwriaeth o'r ymarfer ac ymgysylltiad ag ef.

## Mae'r Archwilydd Cyffredinol, gyda chymorth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn parhau i ddatblygu'r Fenter Twyll Genedlaethol i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn effeithiol

45 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn ddull pwysig sydd ar gael i gyrff cyhoeddus yng Nghymru ei ddefnyddio yn rhan o strategaeth atal a chanfod twyll ehangach. Mae'r Fenter wedi bod yn arf hynod effeithiol ar gyfer atal a chanfod twyll yn erbyn y sector cyhoeddus ers nifer o flynyddoedd. Mae twyll, fodd bynnag, yn newid dros amser. Mae tueddiadau twyllo newydd yn dod i'r amlwg ac mae'r twyllwyr eu hunain yn newid eu harferion i dargedu meysydd y maent yn tybio sydd â'r rheolaethau gwannaf i atal a/neu ganfod eu gweithgareddau twyllodrus. Mae'n rhaid i'r Fenter Twyll Genedlaethol addasu a datblygu felly os yw am barhau i fod yn effeithiol. Mae'n rhaid i'r Fenter ymateb i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac i newidiadau polisi, a chyflwyno mathau newydd o barau data mewn meysydd sy'n agored i dwyll.

46 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymrwymo i gynnal, datblygu a gwella'r Fenter Twyll Genedlaethol yn y dyfodol trwy:

- bwyslais cynyddol ar atal twyll;
- cynyddu nifer y sefydliadau yng Nghymru sy'n cymryd rhan yn y Fenter;
- ymestyn y Fenter i feysydd newydd sy'n agored i dwyll; a
- sicrhau bod safonau uchel cyfredol diogelwch data'r Fenter yn cael eu cynnal.

47 Yn yr ymarfer diweddaraf, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi parhau i gynnig mynediad heb dâl i gyfranogwyr at ddull atal newydd y Fenter Twyll Genedlaethol, 'AppCheck'. System paru data ar yr adeg ymgeisio yw AppCheck, sy'n galluogi'r rheini sy'n cymryd rhan yn y Fenter i groeswirio gwybodaeth a ddarperir gan ymgeiswyr am fudd-daliadau, nwyddau neu wasanaethau yn erbyn setiau data eraill pan fydd y cais yn cael ei wneud. Mae'r parau sy'n deillio o hynny yn nodi anghysondebau a allai fod oherwydd twyll, sy'n galluogi cyrff cyhoeddus i ymchwilio i'r anghysondebau hyn a'u datrys cyn gwneud penderfyniadau ar geisiadau. Er bod rhai cyfranogwyr eisoes yn defnyddio'r dull newydd hwn yn dda, nid yw'n cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial eto. Bydd archwilwyr yr Archwilydd Cyffredinol yn parhau i weithio gyda chyfranogwyr i'w dangos sut y gall AppCheck atal ceisiadau twyllodrus rhag cael eu cymeradwyo pan y'i defnyddir yn rhan o reolaethau allweddol wrth asesu ceisiadau, gan atal gordaliadau a'r angen am ymchwiliadau costus i dwyll.

48 Cymerodd pum corff cyhoeddus arall yng Nghymru ran yn y Fenter Twyll Genedlaethol ar sail wirfoddol yn yr ymarfer diweddaraf. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn awyddus i fwy o sefydliadau gymryd rhan yn ymarferion y dyfodol.

49 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymrwymo i gynorthwyo cyrff cyhoeddus yn eu hymdrechion i atal a chanfod twyll trwy ddefnyddio technegau paru data mewn meysydd lle ceir risg o dwyll nad ydynt yn rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol ar hyn o bryd. Yn ystod 2017-18, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, Swyddfa'r Cabinet a CThEM i ddatblygu ymarferion paru data prawf er mwyn helpu i atal a chanfod twyll mewn darpariaethau addysg a thai. Mae canlyniadau cynnar yr ymarferion prawf hyn yn gadarnhaol iawn a bydd y canlyniadau yn cael eu cyhoeddi ar ôl i'r treialon gael eu gwerthuso'n llawn.

50 Mae hyder y cyhoedd yn niogelwch y data y mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn meddu arnynt yn hanfodol i lwyddant y Fenter. Mae rheolaethau llym iawn ar waith i sicrhau diogelwch data ac i sicrhau bod y perygl o gael mynediad amhriodol at ddata cyn lleied â phosibl. Nodir manylion y trefniadau diogelwch a llywodraethu sydd ar waith ar gyfer y Fenter yn Atodiad 2.

51 Yn 2008, yn unol â Rhan 4A Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, paratowyd Cod Ymarfer Paru Data (y Cod) gan yr Archwilydd Cyffredinol. Yn dilyn ymarfer ymgynghori cyhoeddus eang, cyflwynwyd y Cod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac fe'i cymeradwywyd. Mae gan y Cod statws statudol a'i ddiben yw sicrhau bod gwybodaeth pobl yn cael ei diogelu a'i phrosesu yn briodol yn ystod ymarferion paru data, yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ac arfer gorau. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn parhau i adolygu'r Cod i sicrhau ei fod yn gyson â deddfwriaeth newydd ac arfer gorau. Gan gydnabod y newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth diogelu data a datblygiad technegau paru data, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymgynghori'n gyhoeddus ar ddiweddariad i'r Cod. Bydd y Cod terfynol yn cael ei gyhoeddi yn fuan.

# Atodiad 1 – Sut y mae’r Fenter Twyll Genedlaethol yn gweithio

Lansiwyd y Fenter Twyll Genedlaethol gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru a Lloegr ym 1996 er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i baru gwybodaeth hawlwyr ar draws gwahanol feysydd gwasanaeth a ffiniau daearyddol. Roedd yr ymarfer yn llwyddiant ac mae’r Fenter wedi cael ei chynnal ar sail ddwyflynyddol ers hynny, gan gyflwyno cyfranogwyr newydd a modiwlau newydd ar gyfer canfod twyll a gordaliadau ym mhob ymarfer newydd. Er bod y Fenter yn cael ei gweithredu fel cynllun DU gyfan, fe’i gweinyddir yng Nghymru gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, gan Audit Scotland yn yr Alban a chan Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon yng Ngogledd Iwerddon. Gweinyddwyd y Fenter yn Lloegr gan y Comisiwn Archwilio tan 2015, pan drosglwyddwyd cyfrifoldeb i Swyddfa’r Cabinet.

Mae’r Fenter Twyll Genedlaethol wedi ymsefydlu ei hun fel ymarfer canfod twyll sector cyhoeddus blaenllaw’r DU. Ers 1996, mae’r Fenter wedi canfod gwerth dros £35 miliwn o dwyll a gordaliadau yng Nghymru, a bron â bod £1.7 biliwn ledled y DU.

Mae’r rheini sy’n cymryd rhan yn y Fenter yng Nghymru yn darparu data yn ymwneud â’u systemau ariannol i Swyddfa’r Cabinet ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae’r wybodaeth a gyflwynir yn amrywiol iawn ac yn cynnwys data yn ymwneud â budd-dal tai, pobl sy’n derbyn benthyciadau myfyrwyr a thaliadau cyflogres a phensiwn. Caiff y data eu lanlwytho i system y Fenter Twyll Genedlaethol, a gynlluniwyd i baru gwahanol setiau o ddata at ddibenion nodi hawliadau a thaliadau twyllodrus neu wallus. Pan fydd pâr yn cael ei ganfod, efallai ei fod yn dangos anghysondeb y mae angen ymchwilio iddo ymhellach; nid yw’n dystiolaeth o dwyll ynddo’i hun.

Darperir adroddiadau ar-lein yn cynnwys y parau sy’n ymwneud â’u sefydliad nhw i’r sefydliadau sy’n cymryd rhan, a nhw sy’n gyfrifol am ddadansoddi’r parau hynny. Mae’n rhaid i’r rheini sy’n cymryd rhan adolygu’r parau mewn ffordd briodol a chymesur i’w galluogi i ddileu parau cyd-ddigwyddiadol. Mae’n rhaid iddynt ddefnyddio tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau eraill i gynnal ymchwiliadau priodol i benderfynu a yw parau unigol wedi codi oherwydd hawliad neu daliad twyllodrus. Mewn llawer o achosion, bydd parau yn ymddangos oherwydd gwallau yn y data, a chan fod y Fenter Twyll Genedlaethol wedi tynnu sylw at y mater, mae’n rhoi cyfle i’r rheini sy’n cymryd rhan gywiro neu ddiweddaru’r data a gedwir yn eu cofnodion.

Cofnodir canlyniadau ymchwiliadau gan aelodau staff priodol. Pan fydd taliadau neu ordaliadau twyllodrus yn cael eu canfod, cofnodir gwerth y trafodiadau hynny a rhoddir y wybodaeth i'r Archwilydd Cyffredinol.

Trosglwyddir setiau data gan y rheini sy'n cymryd rhan i system y Fenter Twyll Genedlaethol gan ddefnyddio proses drosglwyddo electronig sy'n amgryptio data wrth ei lanlwytho. Trosglwyddir y data trwy wefan ddiogel y Fenter, a rhoddir yr holl barau yn ôl i'r rheini sy'n cymryd rhan yn yr un modd. Rheolir mynediad at yr adnodd a pharau'r Fenter Twyll Genedlaethol trwy gyfrinair, a cheir rheolaethau llym i sicrhau y darperir mynediad i unigolion priodol.

Mae'r archwilwyr yn adolygu'r cynnydd a wneir gan y rheini sy'n cymryd rhan, ac yn cynnig cyfarwyddyd a chyngor i sefydliadau yn ôl y gofyn.

# Atodiad 2 – Trefniadau Llywodraethu'r Fenter Twyll Genedlaethol

**Cefndir**

Mae'r atodiad hwn yn crynhoi'r ddeddfwriaeth a'r rheolaethau allweddol sy'n llywodraethu ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol.

**Deddfwriaeth**

Cynhelir ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol o dan y pwerau paru data a roddir i Archwilydd Cyffredinol Cymru yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn cynnwys mesurau diogelu data pwysig. Mae'r rhain yn cynnwys gofyniad i'r Archwilydd Cyffredinol baratoi Cod Ymarfer Paru Data (y Cod), ac ymgynghori â'r Comisiynydd Gwybodaeth ac eraill cyn cyhoeddi. Dilynwyd y cod a oedd ar waith ar gyfer ymarfer diweddaraf y Fenter Twyll Genedlaethol, Cod Ymarfer Paru Data 2008, i sicrhau bod ymarfer diweddaraf y Fenter yn cydymffurfio â:

- gofynion diogelu data; ac
- arfer gorau o ran hysbysu unigolion am ddefnyddio eu gwybodaeth ar gyfer y Fenter.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi diweddaru'r Cod yn ddiweddar i adlewyrchu newidiadau diogelu data pwysig a gyflwynwyd gan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (Rheoliad (UE) 2016/679) a Deddf Diogelu Data 2018 a'i dilynodd. Bydd y Cod wedi'i ddiweddaru yn berthnasol i ymarfer nesaf y Fenter Twyll Genedlaethol.

**Cymhwysiad gwe'r Fenter Twyll Genedlaethol**

Mae cyrff yn cael mynediad at y cymhwysiad ar-lein gan ddefnyddio cyfrineiriau a rheolaethau amgryptio sy'n debyg i fancio rhyngrwyd. Y wefan ddiogel yw'r dull mwyaf diogel o ddarparu'r parau data i gyrff. Mae Swyddfa'r Cabinet, yn gweithredu ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon, yn adolygu'r cymhwysiad yn rheolaidd ac yn gwneud newidiadau i wella ei ymarferoldeb, ei hwylustod a'i ddiogelwch.

Mae hyfforddiant rhyngweithiol ar gael i gyrff sy'n cymryd rhan ac i archwilwyr drwy'r cymhwysiad gwe i ategu canllawiau a ddarperir gan Swyddfa'r Cabinet ac archwilwyr Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Adolygiad o ddiogelwch ac achrediad**

Mae system y Fenter Twyll Genedlaethol wedi bod trwy broses sicrwydd gwybodaeth a rheoli risg Swyddfa'r Cabinet. Mae hyn yn golygu bod y system yn cael ei hachredu'n flynyddol gan Lywodraeth EM i storio a phrosesu data.

Bydd unrhyw gwmni sy'n prosesu data ar gyfer Swyddfa'r Cabinet yn gwneud hynny yn unol â chontract ysgrifenedig. Mae hyn yn cyflwyno gofynion yn ymwneud â safonau diogelwch technegol a sefydliadol. O dan y contract, caiff y cwmni weithredu ar sail cyfarwyddiadau gan Swyddfa'r Cabinet yn unig. Mae Swyddfa'r Cabinet, wedi ei chynorthwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ac asiantaethau archwilio sector cyhoeddus eraill y DU, yn cadw'r hawl i adolygu cydymffurfiad y cwmni â'r safonau hyn ar unrhyw adeg. Mae Swyddfa'r Cabinet hefyd yn gwneud profion diogelwch blynyddol yn ofynnol, wedi eu hategu gan brofion ychwanegol yn ôl yr angen.

Mae'r achrediad hwn yn cynnwys dangos bod y Fenter Twyll Genedlaethol wedi ei diogelu'n briodol a bod risgiau gwybodaeth yn cael eu rheoli yn unol â safonau llywodraeth.

Mae'r holl fesurau hyn yn rhoi sicrwydd i'r rheini sy'n cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol bod data yn cael eu prosesu yn unol â safonau diogelwch llywodraethol trwyadl.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru